

Dysgu ac addysgu: deall eich ymarfer addysgol

EE831

Patrwm cyflwyno: O fis Hydref i fis Medi – 46 wythnos

Disgrifiad o'r modiwl

Cynlluniwyd EE831 ar gyfer y rhai hynny sy'n cymryd rhan mewn rhyw ffordd yn y gwaith o addysgu dysgwyr rhwng 3 ac 19 oed. Mae'r modiwl yn ei gwneud yn ofynnol bod gan fyfyrwyr fynediad at leoliad addysgol. Gallai hyn fod fel athro, neu addysgwr, ond gallai fod fel gwirfoddolwr (e.e. Llywodraethwr). Mae'r modiwl yn cynnig rhyngweithedd sylweddol wrth i fyfyrwyr ymgysylltu â dadleuon addysgol am sut mae byd cymdeithasol a digidol sy'n newid yn gyflym yn effeithio ar ddysgu, addysgeg ac asesu mewn amrywiaeth o leoliadau addysgol. Bydd EE831 yn ystyried y cysyniadau allweddol o safbwynt dysgwyr (sut brofiad yw dysgu), athrawon (sut y caiff y broses o addysgu a dysgu ei gweithredu) a chyd-destunau ar gyfer addysg (sut y trefnir y broses o addysgu a dysgu). Bydd myfyrwyr hefyd yn canolbwyntio ar sut yr ymchwilir i'r broses o ddysgu ac addysgu gydag adran benodol ar ymarfer ymchwilio. Un o nodweddion y modiwl fydd wythnos gweithgareddau a gynhelir ym mhob un o'r pedair adran ac a fydd yn cynnwys llai o arweiniad a mwy o archwilio na'r wythnosau eraill yn y cynllun a chanllaw astudio.

Y modiwl EE831 Dysgu ac Addysgu: mae deall eich ymarfer addysgol yn rhan o'r Gradd Feistr Ôl-raddedig/Llwybr Meddygol. Mae wedi'i anelu at y rhai hynny sydd â diddordeb mewn addysg naill ai mewn lleoliadau ffurfiol neu anffurfiol. Y modiwl hwn yw 2il gam y cymhwyster ac mae'n adeiladu ar EE830 (neu fodiwlau Cam 1 F70 eraill, modiwlau cyfatebol y gall myfyrwyr fod wedi eu hastudio mewn man arall, megis cymwysterau TAR lefel meistr) lle byddant wedi datblygu gweledigaeth ar gyfer dysgu ac addysgu yn yr 21ain Ganrif. (EE840 – modiwl Cam 1 – yn cynnwys elfen agored, cwrs 6 wythnos am ddim, sydd ar gael i'r myfyrwyr hynny sy'n dod drwy drosglwyddo credydau).

Manyleb person

Dylid darllen y fanyleb person ar gyfer y modiwl hwn ynghyd â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- Gradd berthnasol, uwch ar lefel meistr ac, yn ddelfrydol, ar lefel doethuriaeth
- Profiad o addysgu/tiwora ar lefel meistr, ar-lein;
- Gwybodaeth a dealltwriaeth ynghylch damcaniaethau addysgol: cwricwlwm, addysgeg ac asesu
- Dealltwriaeth a phrofiad o leoliadau addysgol ar gyfer myfyrwyr oedran ysgol (3-19 oed), a gwybodaeth amdanynt
- Diddordeb mewn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu digidol gyda myfyrwyr
- Y wybodaeth ddiweddaraf am ddadleuon byd-eang cyfredol am addysg, a diddordeb ynddynt
- Y gallu i gyfathrebu'n dda â myfyrwyr sy'n oedolion o amrywiaeth o gefndiroedd proffesiynol
- Y gallu i ddatblygu defnydd myfyriwr o lenyddiaeth, ei dewis a'i dadansoddi'n feiriadol;
- Y gallu i ddatblygu dealltwriaeth myfyriwr o brosesau ymchwil;
- Parodrwydd i ymgysylltu â chydweithwyr eraill ar y modiwl mewn gwaith addysgu tîm cydweithredol o fewn tiwtorialau ar-lein ac, yn ddelfrydol, brofiad o wneud hynny;

Byddai'n fanteisiol meddu ar y canlynol:

- ymrwymiad i'ch Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich hun

- ymrwymiad i ddarllen erthyglau newydd ym maes cwricwlwm, addysgeg ac asesu
- profiad o ymgymryd â gwaith ymchwil mewn lleoliad addysgol
- profiad o weithio mewn lleoliad addysgol yn addysgu dysgwyr yn yr ystod oedran rhwng 4 ac 19.

Manylion sy'n gysylltiedig â'r modiwl – gellir dod o hyd i eglurhad llawn ar y wefan

Credydau a ddyfernir i'r myfyrwyr am gwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	60
Nifer o aseiniadau a gyflwynir gan y myfyrwyr:	3
Dull o gyflwyno'r aseiniadau:	2
Lefel gofynion TGCh:	3
Nifer o fyfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	15
Band cyflog:	5
Nifer o oriau yr wythnos addysgu sy'n debygol:	3